



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Mick Antoniw AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1NA

Ein cyf: LS253/EJ/NS

4 Mawrth 2020

Annwyl Mick

Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)

Ar 10 Chwefror 2020 ysgrifennais at Brif Weinidog Cymru i gadarnhau fy marn – yn unol ag adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 – y byddai Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Fodd bynnag, mae'r casgliad hwnnw yn amodol ar y sail bod y Bil yn ymgysylltu ag Erthygl 1 o Brotocol 1 (Gwarchod Eiddo) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Wrth ystyried cymhwysedd deddfwriaethol y Bil, deuthum i'r casgliad, er ei fod yn ymgysylltu ag Erthygl 1 o Brotocol 1, nad yw'n ei dorri.

Teimlaf ei bod yn briodol rhannu'r cyngor hwn â chi, er mwyn cydnabod a hwyluso rôl Aelodau'r Cynulliad ar eich Pwyllgor wrth graffu ar y Bil hwn.

Bydd y cyfreithiwr a'r Clerc sy'n cefnogi'r Pwyllgor gyda'r gwaith craffu hwnnw yn gallu rhoi gwybodaeth fanylach am y materion. Rwy'n ysgrifennu llythyr tebyg at John Griffiths, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Yn gywir,

Elin Jones AC

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403